

Galwad am geisiadau: Cyfle gyda thâl i awduron

Prosiect Llenyddiaeth Cymru gyda disgyblion
blwyddyn 6 yn Rhondda Cynon Taf.

Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies
a'i gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf.

Cefndir

Mae [cyfranogi](#) yn un o dri colofn gweithgaredd a phrif feysydd gwaith Llenyddiaeth Cymru. Ein nod yw darparu rhagor o gyfleodd i bobl Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol ac ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol.

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gweddnwedd bywydau, a'r angen i gynnal gweithgareddau lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf, rydym wedi nodi tair Blaenoriaeth Dactegol a fydd yn berthnasol i bob un o'n Colofnau Gweithgaredd, sef [Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb](#), [Iechyd a Llesiant](#), a [Phlant a Phobl Ifanc](#). Nid mathau o weithgaredd yw'r rhain, ond yn hytrach themâu a gaiff eu cynnwys ym mhopeth y byddwn yn eu cyflawni, gan gynnwys ein gwaith-ar-y-cyd a'n gwaith hwyluso.

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi derbyn cyllid gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies i gynnal prosiect ysgrifennu creadigol gydag ysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd y prosiect yn cael ei gynnal yn ystod ail hanner tymor yr haf 2021, rhwng 7 Mehefin – 16 Gorffennaf. Nod Ymddiriedolaeth Rhys Davies yw meithrin ysgrifennu o Gymru yn Saesneg, yn enwedig yng nghymoedd de Cymru, felly bydd y prosiect penodol hwn yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg.

Pa gyfleodd sydd ar gael?

Mae dau gyfle gyda thâl ar gael ar gyfer y prosiect hwn

1 x Prif ymarferydd creadigol / Awdur (neu dîm o ddau i rannu'r gwaith)

Rydym yn chwilio am Brif ymarferydd creadigol / Awdur i ddyfeisio, datblygu a chynnal prosiect llenyddiaeth gyda disgyblion blwyddyn 6 ar draws Rhondda Cynon Taf.

Y ffi fydd **£2,500 am gyflawni'r prosiect yn llawn**. Mae hyn gyfwerth â 10 diwrnod o waith ar £250 y dydd.

Mae'r ffi yn cynnwys:

- dyfeisio a datblygu fformat addas, a chynnwys sy'n apelio, ar gyfer gweithdai ysgrifennu creadigol ar gyfer disgyblion blwyddyn 6. Gall y Prif ymarferydd creadigol / Awdur benderfynu ar thema addas;
- cynnal 8 diwrnod byr o weithdai ar gyfer grwpiau o ddisgyblion blwyddyn 6 o nifer o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Neu gellir rhannu hyn yn 16 gweithdy hanner diwrnod *;
- 1 diwrnod ar gyfer cyfarfodydd a chynllunio cyn cynnal y gweithdai; ac
- 1 diwrnod ar gyfer golygu gwaith creadigol a gaiff ei greu gan y plant i'w arddangos (er enghraifft mewn pamffled neu ffilm).

*Gellir cynnal y gweithdai oll yn fyw drwy blatfform ar-lein, neu eu cyflwyno fel adnodd fideo ac yna sesiynau dilynol byw.

Mae'r ffi yn cynnwys pob cost gan gynnwys TAW.

Bydd y Prif ymarferydd creadigol / Awdur:

- yn gallu cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb a drafodwyd ac y cytunwyd arni gyda Llenyddiaeth Cymru;
- yn gallu gweithio gyda phlant 10 – 11 oed (blwyddyn 6);
- yn gallu cyflawni'r prosiect rhwng 7 Mehefin – 16 Gorffennaf 2021;
- â phrofiad mewn cynnal gweithdai llenyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc;
- yn gallu cydweithio'n agos gydag awdur cysgodol i gyflawni'r prosiect;
- â gwiriad DBS lefel uwch cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori); ac
- yn gallu defnyddio platfform ar-lein fel Zoom neu Microsoft Teams (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori).

1 x Awdur cysgodol

Rydym hefyd yn gwahodd ceisiadau gan egin awduron fyddai'n elwa o hyfforddiant a phrofiad pellach yn y math hyn o waith, i gysgodi awdur mwy profiadol yn ystod y prosiect. Y ffi ar gyfer y cyfle hwn yw **£500**.

Bydd hyn yn cynnwys:

- cysgodi ymarferydd creadigol profiadol wrth ddatblygu a chyflawni'r prosiect;
- cyfrannu at syniadau a gweithgareddau creadigol y gweithdai mewn cyfarfodydd cynllunio ac yn ystod y gweithdai; a
- chwblhau gwerthusiad byr ar ddiwedd y prosiect.

Bydd yr Awdur cysgodol:

- yn gallu ymrwymo i fynychu'r holl gyfarfodydd cynllunio ac o leiaf hanner y gweithdai a gynlluniwyd;
- yn awyddus i ddysgu gan ymarferydd profiadol;
- â diddordeb mewn cynnal gweithdai llenyddiaeth;
- â gwiriad DBS lefel uwch cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori); ac
- yn gallu defnyddio platfform ar-lein fel Zoom neu Microsoft Teams (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori).

Mae'r ffi yn cynnwys pob cost gan gynnwys TAW.

Sut i wneud cais?

[Cliciwch yma](#) i wneud cais am un o'r cyfleoedd hyn. Bydd gennych yr opsiwn i wneud cais am un o'r ddau gyfle.

Bydd gofyn i chi:

1. Lenwi ffurflen gais fer a ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd y ffurflen gais yn gofyn wrthydd chi:

- pam rydych chi'n meddwl eich bod yn addas ar gyfer y cyfle;
- am drosolwg o'r prosiect yr hoffech ei ddatblygu gyda'r plant (gan gynnwys unrhyw syniadau arddangos, a themâu yr hoffech eu harchwilio) - **ar gyfer y Prif Ymarferydd yn unig**; neu
- sut fydddech chi'n elwa o'r cyfle a sut y byddai'n eich helpu chi yn y dyfodol - **ar gyfer y cyfle cysgodi yn unig**.

2. Uwchlwytho CV syml yn nodi profiadau perthnasol a/neu botensial.

Cymhwysedd

Mae pob **awdur** ac **artist** sy'n byw yng Nghymru yn gymwys i wneud cais am y cyfleoedd hyn.

Rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol:

- Unigolion sy'n uniaethu ag o leiaf un o Nodweddion y Cleientiaid a Dargedir (unigolion ar incwm isel, unigolion o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig, unigolion ag anableddau neu afiechydon tymor hir, meddyliol neu gorfforol);
- Unigolion nad ydynt eisoes yn derbyn unrhyw arian rheolaidd gan Llenyddiaeth Cymru, na gwaith â thâl yn ystod y 12 mis diwethaf;
- Awduron llawrydd sydd wedi colli gwaith oherwydd pandemig COVID-19; ac
- Awduron sy'n byw yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf, neu'r rheini sydd â chysylltiad personol agos â'r ardal.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau:
12.00 canol dydd, dydd Llun 24 Mai 2021

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Asesir ceisiadau gan banel o aelodau staff Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dewis a'u hysbysu erbyn **dydd Gwener 28 Mai**.

Bydd Llenyddiaeth Cymru ar gael i gynghori wrth gynllunio a chyflawni'r prosiect ac i gynnig cefnogaeth lle bo angen.

Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn elusen gofrestredig, ac rydym yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Rydym yn hwyluso, noddi ac yn cyflawni rhaglen llenyddol ledled Cymru.

Mae [cyfranogi](#) yn un o dri colofn gweithgaredd a phrif feysydd gwaith Llenyddiaeth Cymru. Ein nod yw darparu rhagor o gyfleodd i bobl Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol ac ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol.

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gweddnewid bywydau, a'r angen i gynnal gweithgareddau lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf, rydym wedi nodi tair Blaenoriaeth Dactegol a fydd yn berthnasol i bob un o'n Colofnau Gweithgaredd, sef [Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb](#), [Iechyd a Llesiant](#), a [Phlant a Phobl Ifanc](#). Nid mathau o weithgaredd yw'r rhain, ond yn hytrach themâu a gaiff eu cynnwys ym mhopeth y byddwn yn eu cyflawni, gan gynnwys ein gwaith-ar-y-cyd a'n gwaith hwyluso.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.llenyddiaethcymru.org